# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Mehefin 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

(Tudalen 1)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

### 2.2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

(Tudalennau 2 - 4)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at bob Cadeirydd Pwyllgor

**2.3 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 5 - 7)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog at y Prif Weinidog

**2.4 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 8 - 11)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**2.5 Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalennau 12 - 14)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Brif Weithredwr Dros Dro Colegau Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Saesneg un unig)

**2.6 Carchar EM y Parc**

(Tudalennau 15 - 16)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig

**2.7 Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalennau 17 - 20)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Grŵp Cydweithredol Iechyd Plant Colegau Brenhinol Cymru at y Prif Weinidog

**2.8 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

(Tudalen 21)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**2.9 Sefydlu pwyllgorau a'u cylchoedd gorchwyl**

(Tudalennau 22 - 24)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeiryddion Pwyllgorau gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**2.10 Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalennau 25 - 26)

Dogfennau atodol:

Nodyn briffio gan y Sefydliad Ffiseg (Saesneg yn unig)

**2.11 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalen 27)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar

**2.12 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 28 - 30)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg gan Gadeirydd Cenedlaethol Cymdeithas yr Iaith

2.13 **Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 31 - 37)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod cyfan ar 19 Mehefin, 27 Mehefin a 10 Gorffennaf

(09.30)

## Cyfarfod preifat

(09.30 - 12.30)

Bydd egwyl yn ystod eitem 4, a bydd hyn yn ôl disgresiwn y Cadeirydd ar amser priodol

## 4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - trafod yr adroddiad drafft

(09.30 - 12.30) (Tudalennau 38 - 242)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sarah Murphy AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

8 Mai 2024

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF**

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fod Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wedi'i gyhoeddi ar 11 Ebrill 2024.

Mae'r Memorandwm yn disgrifio'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i ymrwymiad y Partïon ar y cyd i leihau aildroseddu yng Nghymru, a'r gydnabyddiaeth barhaus mai'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau sy'n arwain at gyflogaeth gynaliadwy yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o leihau aildroseddu ac atal troseddu. Mae'r Memorandwm yn cynnwys y modd y bydd rhaglenni dysgu a sgiliau i droseddwyr yn y ddalfa yn cael eu cefnogi, ac mae hefyd yn nodi sut y dylid sicrhau bod rhaglenni dysgu a sgiliau yn parhau i droseddwyr yng Nghymru ar ôl iddynt fod yn y ddalfa.

Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

Lynne Neagle

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Eitem 2.2

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

8 Mai 2024

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfod ar 24 Ebrill 2022, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ei raglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, sydd ar ddod, cyn dadl flynyddol y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant, a drefnwyd ar gyfer 17 Gorffennaf. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc i rannu ein syniadau. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn hwyrach eleni. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda'r cyhoedd, ac amrywiol ddulliau eraill o gasglu barn pobl ifanc.

Digwyddiad i randdeiliaid: Caerfyrddin

Bydd y digwyddiad i randdeiliaid eleni yn cael ei gynnal yng Nghanolfan S4C, Yr Egin, ddydd Iau 13 Mehefin. Bydd hwn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion sydd â diddordeb ar y cynigion arfaethedig ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, yn ogystal â'u barn ar ddull Llywodraeth Cymru o osod y gyllideb a blaenoriaethu adnoddau. Gan fod gwaith ar draws y pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol, hoffwn wahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau neu Aelod o bob Pwyllgor i ymuno â'r digwyddiad. Os

oes gan Gadeiryddion neu Aelodau ddiddordeb mewn dod i'r digwyddiad, dylech gysylltu â'r tîm clercio erbyn 20 Mai, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: SeneddCyllid@Senedd.Cymru.

### Ceisio barn y cyhoedd yng Nghymru drwy gynnal grwpiau ffocws ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion

Ar ran y Pwyllgor, bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws cyhoeddus ar y gyllideb ddrafft. Mae'r tîm wedi cynnal ymarferion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf, a nod y gwaith hwn yw llunio astudiaeth trawstoriadol a fydd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser. Deuir o hyd i gyfranogwyr drwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r hyn a gafwyd y llynedd, a bydd grwpiau'n cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol. Bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau'r sesiynau â phob Pwyllgor, ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch lle y dylid blaenoriaethu gwariant.

### Ymgysylltu â phobl ifanc

Mewn blynyddoedd blaenorol – er mwyn ategu ein gwaith ymgysylltu ymhellach – mae'r Pwyllgor wedi cynnal gweithdy gydag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid. Gan nad oes Sesiwn o'r Senedd Ieuenctid yn mynd rhagddi hyn o bryd, bydd y Pwyllgor yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn gwahanol ffyrdd. Bydd cyfle i bobl ifanc roi eu barn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn y Sioe Frenhinol. At hynny, mae'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn trefnu gweithdy pwrpasol ar gyfer pobl ifanc a bydd yn gwahodd cyfranogwyr o Goleg y Cymoedd, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a *Voices from Care Cymru*. Bydd y Tîm Cyfathrebu Digidol hefyd yn defnyddio offer cyfryngau cymdeithasol rhyngweithiol i annog ymgysylltiad, a byddem yn gwerthfawrogi pe byddai Pwyllgorau eraill yn defnyddio eu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol eu hunain i hyrwyddo'r gwaith hwn.

### Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 17 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn llywio'r ddadl honno ac yn bwydo i mewn iddi, a dyma fydd y cyfle gorau i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael chyhoeddi'n hwyrach eleni. Fel ar bob adeg, dyma estyn croeso mawr i gyfraniad Cadeiryddion Pwyllgorau – yn ogystal ag Aelodau eraill – yn rhan o'r ddadl hon, i sicrhau bod cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn cael eu llywio gan safbwyntiau a blaenoriaethau Pwyllgorau'r Senedd.

### Y dull o graffu ar y gyllideb

Cyn hir, byddaf yn ysgrifennu at Gadeiryddion ynghylch dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r amserlen unwaith y bydd y Trefnydd wedi hysbysu'r Pwyllgor Busnes am ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft cyn toriad yr haf.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388, seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**
—
**Committee for the Scrutiny of the First Minister**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
CraffuPW@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCraffuPW
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
ScrutinyFM@senedd.wales
senedd.wales/SeneddScrutinyFM
0300 200 6565

Vaughan Gething, Prif Weinidog
Drwy e-bost

Dyddiad | Date:

Pwnc | Subject: Cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Annwyl Vaughan

Diolch ichi am ddod i sesiwn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 26 Ebrill 2024 ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd yn sesiwn ddefnyddiol ac addysgiadol. At hynny, peth cadarnhaol iawn oedd gweld yr oriel gyhoeddus yn llawn o blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, sy'n dilyn gwaith craffu'r Senedd yn y maes hwn â diddordeb.

Buom yn trafod â chi yn ystod y cyfarfod fod yna heriau clir i rôl y rhiant corfforaethol, felly hefyd eu cyrhaeddiad ar draws yr ystod o bortffolios cabinet. Un pryder allweddol – yr ydych yn ei rannu – yw'r cynnydd parhaus yn nifer y plant mewn gofal, a'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am eu sefyllfa yn y tymor hir. Byddai'r Pwyllgor, felly, yn croesawu rhywfaint o wybodaeth bellach i'n helpu i ddeall eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol, mewn cysylltiad â rhai o'r heriau penodol a drafodwyd gennym. Mae'r meysydd hyn wedi'u nodi mewn atodiad i'r llythyr hwn.

Er mwyn eich helpu i baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor, mae wedi'i drefnu ar gyfer 12 Gorffennaf 2024 yn Sir Gaerfyrddin, neu yn ardal Caerfyrddin, a'r thema fydd Cymunedau Gwledig.

Yn gywir



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad: Gwybodaeth ychwanegol am blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Byddem yn croesawu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am y canlynol:

**Y cynnydd yn nifer y plant mewn gofal**

Pa *gamau ychwanegol* mae eich llywodraeth yn bwriadu ei gymryd er mwyn gostwng – mewn modd diogel – nifer y plant sy'n mynd i ofal, o ystyried nad yw'r buddsoddiad a'r dulliau presennol wedi gwrthdroi'r cynnydd, hyd yn hyn.

**Rôl Llywodraeth Cymru fel rhiant, a nain a thaid, corfforaethol**

Yr amserlen ar gyfer cryfhau Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a phlant sy'n cael eu lletya, gan ei fod yn cyfeirio at rianta corfforaethol. At hynny, byddem yn croesawu gwybodaeth am unrhyw gamau ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi Gofalwyr sy'n Berthnasau, er mwyn cydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae.

**Digartrefedd**

Diweddariad ar sut y bydd yr iteriad nesaf o Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru yn mynd i'r afael ag anghenion plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys rhieni biolegol sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Fe fyddwch yn ymwybodol bod data Llywodraeth Cymru yn dangos bod 315 o'r rheini a oedd yn gadael gofal yn ddigartref yng Nghymru yn 2022-23, sef cynnydd sylweddol ers 2020-21. Fel y gwyddoch, hefyd, mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at bobl ifanc hyd at 25 oed yn cael eu cefnogi'n weithredol gan eu hawdurdod lleol, fel rhai sy'n gadael gofal ar yr adeg yr adroddwyd am eu digartrefedd. Rydym yn nodi bod Adolygiad Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru wedi gwneud argymhelliad penodol, a bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, hefyd, wedi dweud y dylid creu "chweched categori o'r enw 'blaenoriaeth resymol' ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ni waeth beth fo'u statws digartrefedd, er mwyn eu hatal rhag mynd i mewn i'r system ddigartrefedd i gael mynediad at dai cymdeithasol". A allwch chi gadarnhau y bydd hyn yn cael ei roi ar waith?

**Cyflawni canlyniadau strategaethau i gefnogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal**

Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i gryfhau'r mecanweithiau ar gyfer *cyflwyno* strategaethau presennol sy'n effeithio ar blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal? Er enghraifft, y targed cenedlaethol yn strategaeth 2016, sef codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal oedd codi cyrhaeddiad pobl ifanc 15 oed sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 4 o'r trothwy cynwysedig Lefel 2 o 17% yn 2014 i 25% yn 2016. Yn ôl y ffigurau cyhoeddedig diweddaraf o 2019, roedd ganran wedi aros ar 17% bryd hynny.

**Gweithlu gofal cymdeithasol plant**

Pa gamau ychwanegol y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod yna weithlu gofal cymdeithasol plant sy'n addas at y diben – a'ch disgwyliadau o ran rôl awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru – yn hyn o beth? Fe fyddwch yn ymwybodol bod yna, yn 2022, 639 o swyddi gweigion mewn timau gwaith cymdeithasol plant ledled Cymru, ac ym mis Medi 2023, bod 17.5% o weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant yn cael eu cyflogi gan asiantaeth.

# Eitem 2.4

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

10 Mai 2024

**Gwybodaeth ddilynol o'r sesiwn dystiolaeth ar 8 Mai - Ymchwiliad i ddiwygiadau addysg**

Annwyl Lynne,

Diolch eto am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 8 Mai 2024 i drafod y broses o weithredu'r cwricwlwm newydd a'r diwygiadau ADY. Croesawyd eich ymgysylltiad adeiladol a gonest â ni.

Diolch i chi am eich ymrwymiad i ymateb i rai cwestiynau ychwanegol gennym yn ysgrifenedig. Gweler yr Atodiad am restr o'r cwestiynau.

Yn y drafodaeth breifat yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi adroddiad interim ar ei ganfyddiadau hyd yn hyn o'r ymchwiliad hwn. Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad hwn cyn gynted â phosibl i sicrhau bod gennych bob cyfle i ystyried y canfyddiadau wrth i chi ddatblygu eich ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg wrth i'r ddau ddiwygiad hollbwysig hyn gael eu gweithredu. Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ymateb i'r llythyr hwn yn gyflymach na'r arfer – erbyn 7 Mehefin – fel y gall ein hadroddiad ystyried eich ymateb yn llawn.

Deallaf y gall cyfnodau byr ar gyfer ymateb fod yn heriol i chi a'ch swyddogion. Fel bob amser, os yw'r cais hwn yn peri anhawster anghymesur, cysylltwch â chlercod y Pwyllgor a byddant yn gweithio gyda'ch swyddogion i leihau'r pwysau ar eich adran a sicrhau bod modd i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad mor brydlon â phosibl.

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn dilyn y sesiwn graffu ar 8 Mai 2024

## ADY

### Cyffredinol

1. O ran sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch a yw CDU yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn hytrach na'r ysgol, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faint o awdurdodau lleol, yn unol â disgwyliadau'r Cod ADY, sydd wedi cyhoeddi eu set o egwyddorion, gan roi'r meini prawf ar sut byddant yn gwneud penderfyniadau o'r fath?

### Data

2. Beth yw'r llinellau amser sy'n gysylltiedig â'r gwaith ar ddata y gwnaethoch gyfeirio atynt yn ystod y cyfarfod? Yn benodol, erbyn pryd yr ydych yn gobeithio y bydd gennych y data hynny yr ydych o'r farn bod angen iddynt gael eu casglu ond sydd ddim ar hyn o bryd, ac erbyn pryd yr ydych yn gobeithio y byddant ar gael i gyfoethogi'r broses o weithredu'r system ADY?

### Ôl-16

3. Y sefyllfa gyffredinol yw bod gan bobl ifanc hawl i ddwy flynedd o addysg bellach neu hyfforddiant ôl-16 oni bai bod 'anghenion rhesymol am fwy'. Fodd bynnag, mae NatSpec, sefydliad ymbarél darparwyr addysg bellach arbenigol, yn nodi bod llawer o achosion lle mae pobl ifanc ag ADY yn cael eu hamddifadu o gyllid i dreulio mwy na dwy flynedd mewn addysg bellach neu hyfforddiant. Beth mae hyn yn ei ddweud ynghylch a yw'r system ADY newydd yn system 0-25 oed o ddifri fel y dywedwyd ers y dechrau?

### Cyllid

4. A allech egluro faint sydd wedi cael ei wario ar gefnogi'r broses o weithredu'r system ADY newydd hyd yma (cyn 2024-25)? (Mae eich papur ysgrifenedig yn nodi i £62 miliwn o refeniw a £40 miliwn o gyfalaf gael eu gwario rhwng 2020 a 2024.) Roedd eich papur hefyd yn nodi i £56 miliwn gael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith gweithredu yn 2024-25. Pam mae'r swm sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2024-25 yn ymddangos yn sylweddol uwch y flwyddyn na'r ffigur cronnol dros y cyfnod o dair neu bedair blynedd rhwng 2020 a 2024? A yw'r ffigurau'n gymharol ynteu a yw'r ffigur ar gyfer 2024-25 yn cynnwys cyllidebau ADY eraill, megis ôl-16, sy'n absennol o'r ffigur ar gyfer 2020 i 2024?

### Gweithio gyda chyrff iechyd

5. A fyddwch cystal â chadarnhau a yw pob un o'r pedwar SACDA sydd mewn swydd yn gwasanaethu byrddau iechyd unigol (yn hytrach na chael eu rhannu ar draws y saith bwrdd iechyd)? Os felly, a ydych yn fodlon bod y tri bwrdd iechyd sydd heb benodi SACDA yn cydymffurfio ag adran 61 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018?

## Cwricwlwm newydd

6. Mae'n ymddangos mai cynnydd ac asesu yw'r agwedd ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru sy'n peri'r anhawster mwyaf i ysgolion o hyd. Pa mor ymwybodol ydych chi o hynny ac a ydych chi'n ystyried darparu arweiniad manylach fel mae Estyn wedi awgrymu y gellid bod angen ei wneud yn achos rhai ysgolion, er gwaethaf yr hyn a ddarparwyd yn barod?


Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

ColegauCymru
CollegesWales

13 May 2024

Dear Buffy Williams MS,

**Re: ColegauCymru welcome letter and invitation to the Colleges Alliance meeting**

Firstly, many congratulations on your election as the new Chair of the Senedd's Children, Young People and Education Committee. We know you have been a dedicated member of the Committee over the years, and as a long-term friend of further education (FE) (you might recall meeting with us in 2022 and visiting the Coleg y Cymoedd campus), we are looking forward to continuing our positive working relationship in your new role as Chair.

I would like to take this opportunity to highlight ColegauCymru's latest thinking on some key issues. ColegauCymru is an education charity which promotes the public benefit of FE in Wales. We believe that all learners should have the right to world-class education, delivered in a safe, diverse and inclusive setting and within a sector which supports the wider community, employers and the economy. As part of our representative role, we convene the FE Principals' Forum, as well as various other networks which represent FE colleges and FE institutions (FEIs) in Wales. ColegauCymru also undertakes research, policy development, and provides practical support to FE colleges in Wales including operating mechanisms through which FE colleges negotiate with trade unions on pay and workforce matters. As you will be all too aware, we are navigating a turbulent time with acute pressure on public finances, multiple changes to the education infrastructure landscape and continuing to bear the ongoing impact of the Covid-19 pandemic.

**Commission for Tertiary Education and Research**

From 1 August 2024, Wales will become the first country in the UK to pioneer a single overarching regulatory, oversight, and coordinating authority for all tertiary provision with the operational launch of the Commission for Tertiary Education and Research (CTER). This landmark piece of legislation introduces some of the most significant reforms to the architecture of our education system since devolution. The Welsh Government's Statement of Priorities rightly commits to putting learners at the heart of the system and we welcome the commitment to further strengthen parity of esteem between vocational and academic routes as well as the focus on clearer pathways for learners of all ages, including adult learners and apprentices. Whilst there is much to welcome, it is critical that CTER quickly gets to grip with the true scale of the challenge and the need for reform. In particular, CTER must work with the Welsh Government to ensure there is a clear 14-19 Learning and Transition Pathway for young people taking their first steps into post-16 education and a commitment to reviewing the sustainability and offer between 16-19, in particular the viability of small school sixth forms and the breadth of choice learners are able to access. ColegauCymru stands ready to support both Welsh Government and CTER as its strategic plan is developed over the coming months.

**VCSEs**

As part of their Qualified for the Future reforms, Qualifications Wales is reshaping the full qualifications offer which will be available to learners aged 14 to 16 alongside new Made-for-Wales GCSEs. ColegauCymru has engaged with Qualifications Wales on their VCSE proposals and we agree that there is a need for better options for all young people who are interested in studying vocational subjects. We will work with Qualifications Wales on the development of VCSEs to ensure that young people have the best possible options. It is essential that there is genuine parity between VCSEs and GCSEs and that young people who choose a vocational pathway are not disadvantaged. This must mean that VCSEs are taught by specialist staff and that there are partnerships with

Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB

www.colegaucymru.ac.uk helo@colegaucymru.ac.uk Ff: 029 2052 2500
Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103 Elusen Gofrestredig Rhif 1060182

Unit 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
www.collegeswales.ac.uk hello@collegeswales.ac.uk T: 029 2052 2500
Registered Company No 2832103 Registered Charity Number: 1060182

Cymraeg

colleges to ensure pupils have access to high-quality, industry standard facilities. There must be a close monitoring of who is taking up VCSEs to ensure the changes are not creating a two-tier system and further embedding inequalities.

**Vocational Education and Training Strategy for Wales**
ColegauCymru continues to urge the Welsh Government to develop a Vocational Education and Training (VET) Strategy. For far too long, Wales has had no long-term plan for vocational education and training and the result has been a series of short-term and fragmented interventions. There is now a responsibility on Ministers to step forward and ensure a new strategic vision for the future is in place. This strategy was one of the primary recommendations from the Welsh Government's Vocational Qualifications Review last year. A strategy would offer us an opportunity to clearly articulate Wales' ambitions for what VET can deliver for Wales. Progress should be made as a matter of urgency so that we can identify the right priorities for the future. ColegauCymru, and colleges across Wales, are committed to working with Welsh Government and other stakeholders to ensure our vocational qualifications suit the needs of today as well as future generations.

**Internationalisation**
CollegesWales International supports the internationalisation of the FE sector in many ways: to enrich and enhance teaching and learning experiences; raise learners' aspirations and broaden their horizons; inform professional practice and improve provision and raise the profile of international work undertaken in FE. Through the Taith programme, ColegauCymru is currently undertaking two projects to inform policy and practice. The first is on Vocational Qualification Reform and the Implementation of CTER with a delegation of Principals and Welsh Government officials travelling to Helsinki in April 2024 to learn from international best practice. The focus was aimed at understanding what a national strategy for VET could look like for Wales, a strategy which must link VET to Wales' economic and industrial priorities. Secondly, ColegauCymru has secured Taith funding as part of our Memorandum of Understanding with Colleges and Institutes Canada, to establish a community of practice intended to tackle the issue of peer-on-peer sexual harassment in FE, highlighted by Estyn's report last year.

**Welsh-medium education**
ColegauCymru, and the wider FE sector, are supportive of the Welsh Government's target of one million Welsh speakers by 2050 and we work closely with the Coleg Cymraeg Cenedlaethol to support the delivery of Welsh medium and bilingual provision. In order to boost delivery through the Welsh language, all colleges in Wales have taken part in the Cymraeg Gwaith scheme. Supported by the National Centre for Learning Welsh, Coleg Cymraeg Cenedlaethol co-ordinates the Cymraeg Gwaith programme on behalf of the FE sector. Cymraeg Gwaith aims to strengthen Welsh language skills in workplaces across Wales and has been operational in the FE sector since 2017. However, in order to continue delivering this successful programme, long term funding must be secured as this is crucial to ensuring the sector's contribution to Cymraeg 2050.

**Towards an anti-racist Wales**
The FE sector is showing real leadership in its journey towards anti-racism and supporting the Welsh Government's ambition of creating an anti-racist Wales by 2030. We are not complacent about the scale of the challenge or believe that strategies alone can prevent the experience of racism that learners and staff face. ColegauCymru, on behalf of our member colleges, is committed to supporting the Welsh Government in working towards an anti-racist Wales by 2030, and all colleges have local action plans in place.

Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB

www.colegaucymru.ac.uk helo@colegaucymru.ac.uk Ff: 029 2052 2500
Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103 Elusen Gofrestredig Rhif 1060182

Unit 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
www.collegeswales.ac.uk hello@collegeswales.ac.uk T: 029 2052 2500
Registered Company No 2832103 Registered Charity Number: 1060182

**Active Wellbeing**
Helping Wales to become healthier and more active is a priority, not only for Welsh Government, but also for the FE sector. Encouraging new approaches for young people and college staff to be more active and identifying clear links to better individual wellbeing provides a great start to tackling some of the wellbeing challenges which Wales faces. ColegauCymru develops opportunities for learners supported by our colleges, their staff and learners; promoting activity for young women and girls, and learners with additional learning needs remains a priority for everyone involved. The aim of ColegauCymru's Active Wellbeing strategy is to lead the sector in creating college communities that place the individual at the core of strategic development, creating outstanding environments for learners and staff in the process.

**Additional Learning Needs**
ColegauCymru is proud to host the position of the FE Additional Learning Needs (ALN) Implementation Lead, funded by Welsh Government. The Additional Learning Needs and Educational Tribunal (Wales) Act (ALNET) and ALN Code became live for some learners in colleges in September 2023. This followed five years of transformation where colleges have sought to make enhancements to their provision, train staff and develop partnerships with Local Authorities, health boards and others. The FE Implementation Lead has worked closely with colleges to ensure a seamless experience for learners, and while there have been excellent examples of improved transition across Wales, there is still much to do to ensure a consistent picture for all. The recent Welsh Government 'Post-16 Transitions' event provided a great opportunity for ColegauCymru and FEI college representatives to share good practice with LA and school staff and it is hoped that this, along with other projects, will help to improve the picture across Wales.

**Social Value of FE in Wales**
This month, ColegauCymru launched a new report (you can read it here), demonstrating the social value of FE colleges in Wales. With grant funding from Welsh Government, ColegauCymru commissioned Cwmpas and the Centre for Local Economic Strategy to undertake a piece of research to establish the social value of FE in Wales. The report tells a positive story and provides an assessment and joint articulation of the collective social value of colleges in Wales; benefiting learners, community and society, and the wider economy, especially in light of recent difficult times with the ongoing fallout of Covid-19 and the cost-of-living crisis.

**Working across the UK and beyond**
ColegauCymru is a proud member of the Colleges Alliance which brings together college leaders and government officials from across the UK and Ireland to share learning and practice. On 25 and 26 June this year, the Alliance is hosting a 'study visit' to Coleg y Cymoedd which will bring together approximately 20 college deputy Principals and government deputy directors for a 24-hour immersive visit to explore the opportunities presented by the new Commission for Tertiary Education and Research. If your diary allows, we would like to invite you to take part in the event to share your reflections with delegates. I would be most grateful if you could let me know if that would be possible at your earliest convenience.

As you settle into the new role, I also hope you will accept my invitation to visit one of our colleges, to learn more about value of the FE sector in Wales. Once again, please accept my congratulations on your election as the new Chair of the Children, Young People and Education Committee. I, and the ColegauCymru team, look forward to working with you and your team in the future.
Cofion gorau,

**Kelly Edwards**
**Interim Chief Executive**

Uned 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB

www.colegaucymru.ac.uk helo@colegaucymru.ac.uk Ff: 029 2052 2500
Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103 Elusen Gofrestredig Rhif 1060182

Unit 7 Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
www.collegeswales.ac.uk hello@collegeswales.ac.uk T: 029 2052 2500
Registered Company No 2832103 Registered Charity Number: 1060182

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Stephen Crabb AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig

14 Mai 2024

Annwyl Stephen,

Carchar y Parc

Fel y dywedsoch yn eich cwestiwn atodol i'r cwestiwn brys a ofynnwyd gan Chris Elmore AS yn Siambr Tŷ'r Cyffredin ddoe, mae'r sefyllfa bresennol yng Ngharchar EF Y Parc yn peri pryder mawr.

Gwnaethom fynegi ein pryderon ynghylch y sefyllfa sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod ein Pwyllgor ddoe yn sgil gohebiaeth oddi wrth Adam Price, sy'n aelod o'n Pwyllgor.

Rydym yn ymwybodol bod carchardai a rheoli troseddwyr yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Fodd bynnag, mae eithriad i'r mater a gedwir yn ôl yn golygu bod darparu gofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, hyfforddiant a gwasanaethau llyfrgell mewn carchardai yn faterion datganoledig. Felly, rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer unrhyw waith y gallem ei wneud, gan gynnwys gwaith gyda Phwyllgorau eraill y Senedd, o ystyried difrifoldeb y sefyllfa yn y carchar.

Rydym yn ymwybodol bod eich Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i garchardai yng Nghymru, a byddwch yn cymryd tystiolaeth gan y Gweinidog Carchardai, Parôl a Phrawf yfory. Felly, byddwn yn dilyn gwaith eich Pwyllgor ar y mater hwn ac yn edrych ymlaen at weld eich adroddiad terfynol a'ch argymhellion.

Fel y pwyllgorau sy'n gyfrifol am gynnal gwaith craffu priodol ar y ddarpariaeth o ofal iechyd ac addysg i garcharorion yng Nghymru, ac am ystyried materion o ran cydraddoldeb a hawliau dynol,

rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

Sarah Murphy
Cadeirydd

Welsh Royal Colleges
Child Health
Collaborative

Cydweithredfa
Iechyd Plant
Colegau Brenhinol Cymru

Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Dydd Llun 20 Mai 2024

Annwyl Prif Weinidog

Rydym wedi dod at ein gilydd fel 20 o sefydliadau heddiw i ffurfio Cydweithredfa Iechyd Plant Colegau Brenhinol Cymru (WRCCHC).

Gyda'n gilydd rydym yn gofyn sut y bydd eich llywodraeth yn gwella canlyniadau iechyd i fabanod, plant a phobl ifanc a sut y byddwch yn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu sy'n gofalu amdanynt.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol ac Academi'r Gwyddorau Meddygol adroddiadau amlwg sy'n amlygu'r dystiolaeth eang o ddirywiad mewn iechyd ymhlith plant.

Rydym yn adleisio rhybudd llym yr adroddiadau hyn wrth i ni weld bob dydd effaith iechyd gwael plant, effaith anghymesur anghydraddoldebau iechyd ar blant a chanlyniad hyn ar iechyd a lles hirdymor pobl.

Mae materion iechyd sylweddol fel marwolaethau babanod, gordewdra a phydredd dannedd nid yn unig yn niweidio plant ieuengaf y genedl a'u dyfodol, ond hefyd ffyniant economaidd y genedl. Bydd y materion a welwn heddiw yn effeithio ar iechyd cenedlaethau'r dyfodol, ein potensial economaidd a bydd yn costio mwy i fynd i'r afael â nhw yn y dyfodol.

Yng Nghymru mae gennym gyfle i wneud pethau'n wahanol a gwella cyfleoedd bywyd ein plant. Rydym yn eich annog i achub ar y cyfle hwn ac ateb y galwadau brys i flaenoriaethu iechyd babanod, plant a phobl ifanc a'r gwasanaethau sy'n darparu ar eu cyfer.

## Iechyd Plant Cymru

Mynychu adrannau achosion brys: Mynychodd 18,924 o blant (dan 18 oed) un o adrannau achosion brys GIG Cymru ym mis Chwefror 2022, o gymharu â 15,507 ym mis Chwefror 2022. Cynnydd o 22%.

Rhestrau aros: Mae 7,310 o bobl dan 18 oed yn aros mwy na blwyddyn am driniaeth, a 1,212 yn aros mwy na dwy flynedd. Mae'r rhai sy'n aros mwy na blwyddyn am apwyntiad claf allanol wedi cynyddu 18% ers mis Medi 2024 (3210/3779).

Iechyd meddwl: mae gan 1 o bob 6 o blant a phobl ifanc broblem iechyd meddwl y gellir ei diagnosio, ac mae llawer mwy yn cael trafferth gyda heriau, o fwlio i brofedigaeth.

Tlodi: Mae 29% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 21% o oedolion sy'n gweithio ac 16% o bensiynwyr yng Nghymru.

Rhaglen Plant Iach Cymru: Dylai fod 62,000 o gysylltiadau wedi cael eu cynnig yn 2022, ond ni chofnodwyd eu bod wedi digwydd.

Bwydo ar y fron: Yng Nghymru, tra bod dros 60% o fenywod yn bwriadu bwydo ar y fron, mae'r ffigur yn disgyn i 26% yn nodi eu bod yn bwydo ar y fron ar ôl 6 wythnos.

Gweithgarwch corfforol: Dim ond 17% o bobl ifanc (11-16 oed) sy'n actif am o leiaf 60 munud ar draws pob un o'r saith diwrnod o'r wythnos tra dywedodd bron i draean (32%) o blant (8-11 oed) eu bod yn gwylio'r teledu/sgriniau am ddwy awr neu fwy bob dydd o'r wythnos.

Iechyd y Geg: Roedd bron i draean (32.4%) o blant blwyddyn un oed ysgol wedi profi pydredd dannedd. Mae hyn yn cynyddu i 43.4% o'r rhai yn y cwintel mwyaf difreintiedig, sef cynnydd o 1.2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Pwysau iach: Mae cyfran y plant sydd dros bwysau neu'n ordew yn amrywio o 24.1% ym Mhowys a Chaerdydd a'r Fro, 27.6% yn Betsi Cadwaladr, 28.3% ym Mae Abertawe a 29.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Ysmygu: Mae 4% o bobl ifanc 11-16 oed yn nodi eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd, gan godi i 9% o'r rhai 15-16 oed. Mae pobl ifanc o deuluoedd llai cefnog ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ysmygwyr presennol na'r rhai o deuluoedd mwy cefnog.

Fepio (*Vaping*) Mae 1 o bob 5 (20%) o ddysgwyr oed uwchradd (Blwyddyn 7 i 11) wedi rhoi cynnig ar fepio. Gyda 5% yn dweud eu bod yn fepio'n rheolaidd, gan godi i 14% ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11.

Sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu: Mae gan 4.8% o blant ysgol yng Nghymru anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu gyda bron i draean (32%) yn byw mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol uchel.

Diogelu: Mae cyfran y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi aros yn ystyfnig o uchel ar 14% ers 2017.

Fel grŵp cydweithredol o Golegau Brenhinol a chyrff proffesiynol mae gennym arbenigedd mewn fferylliaeth, nyrsio, iechyd y cyhoedd ac iechyd y geg yn ogystal â phroffesiynau mewn gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol. Hoffem gynnig cyngor a chymorth arbenigol a gweithio gyda chi i wella iechyd plant.

Mae'r WRCCHC yn anelu at sicrhau ffocws a dealltwriaeth gliriach ar y gefnogaeth bresennol ac angenrheidiol i'r babanod, plant a phobl ifanc a'r gweithlu rydym yn ei gynrychioli.

Rydym wedi sefydlu meysydd gwaith cyffredin sef anghydraddoldebau iechyd, gweithlu, data, diogelu ac atebolrwydd. Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gyflawn. Fel sefydliadau unigol mae gan bob un ohonom ein blaenoriaethau a'n harbenigedd ein hunain, ond teimlwn oll fod angen canolbwyntio ar y meysydd gwaith cyffredin a nodir uchod.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi, eich gweinidogion a rhwydweithiau mamolaeth a newyddenedigol ac iechyd plant Gweithrediaeth y GIG.

Cofion cynnes

Yr eiddoch yn gywir,

*Cydweithredfa Iechyd Plant Colegau Brenhinol Cymru (WRCCHC) fel y'i dyluniwyd gan blant Bwrdd Ieuenctid Tŷ Hafan.*

## Wedi'i gymeradwyo gan:

1. Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cadeirydd WRCCHC)
2. Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (Is-Gadeirydd WRCCHC)
3. Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
4. Cymdeithas Seicolegol Prydain
5. Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion
6. Coleg y Parafeddygon
7. Y Gyfadran Meddygaeth Gofal Dwys
8. Cyfadran Iechyd y Cyhoedd

9. Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys
10. Coleg Brenhinol y Bydwragedd
11. Coleg Brenhinol y Nyrsys
12. Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
13. Coleg Brenhinol y Patholegwyr
14. Coleg Brenhinol y Meddygon
15. Coleg Brenhinol Podiatreg
16. Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
17. Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
18. Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin
19. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
20. Cymdeithas y Radiograffwyr

Wedi eu copïo fewn er gwybodaeth

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar, Jayne Bryant AS
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS
Prif Swyddog Meddygol, Dr Frank Atherton
Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Ruth Crowder
Prif Swyddog Nyrsio, Sue Tranka
Prif Swyddog Fferyllol, Andrew Evans

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

20 Mai 2024

Annwyl Buffy

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Fel y gwyddoch, mae'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer craffu Cyfnod 1.

Mae cyfran sylweddol o'r Bil yn ymwneud â dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal; maes polisi sydd o ddiddordeb i'ch pwyllgor. Felly, hoffem wahodd aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddod i'r sesiynau tystiolaeth lle rydym yn trafod rhannau perthnasol o'r Bil. Unwaith y byddwn wedi cwblhau ein hamserlen, byddaf yn gofyn i'r clerc gysylltu â'ch tîm ynglŷn â dyddiadau cyfarfodydd.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Y Pwyllgor Busnes**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd

22 Mai 2024

**Cylchoedd gwaith y pwyllgorau**

Annwyl Gadeirydd,


Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 14 Mai, gwnaethom ystyried llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch heriau mewn perthynas â chylch gwaith y Pwyllgor hwnnw sydd wedi deillio o newidiadau diweddar i bortffolios gweinidogol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ysgrifennu at bwyllgorau eraill y Senedd i'ch gwahodd i roi unrhyw farn sydd gennych am gylch gwaith cyfredol y pwyllgorau, fel y gallwn ystyried unrhyw faterion sydd wedi codi mewn modd cydgysylltiedig.

Bwriadaf i'r Pwyllgor Busnes ddychwelyd at ystyried y materion hyn ymhellach cyn toriad yr haf, a byddwn felly'n ddiolchgar o gael eich barn neu unrhyw ystyriaethau sydd gan eich Pwyllgor erbyn dydd Gwener 21 Mehefin 2024. Rhowch wybod i mi os ydych yn rhagweld y cewch unrhyw anhawster ymateb o fewn yr amser hwn.

Rwy'n amgáu copi o'r ohebiaeth a anfonwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch ei gylch gwaith er mwyn rhoi cyd-destun.

Cofion cynnes



**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busness

10 Mai 2024

Annwyl Lywydd,

Cylchoedd Gwaith Pwyllgorau yn sgil ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru yn ddiweddar

Ysgrifennaf i ofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried cylchoedd gwaith y pwyllgorau polisi yn dilyn penodiad y Prif Weinidog a'r ad-drefnu o bortffolios y Cabinet yn sgil hynny.

Fel y gwyddoch, mae'r newidiadau i rolau gweinidogion wedi arwain at ailddosbarthu sylweddol o gyfrifoldebau, yn enwedig rhai'r Gweinidog Newid Hinsawdd gynt. Mae cylch gwaith Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith bellach yn ymwneud â phortffolios pedwar Ysgrifennydd Cabinet, gan gwmpasu meysydd polisi amrywiol a sylweddol, fel a ganlyn:

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

- Polisi ynni, gan gynnwys ynni adnewyddadwy
- Yr economi gylchol
- Polisi porthladdoedd, gan gynnwys porthladdoedd rhydd
- Goruchwylio Maes Awyr Caerdydd
- Seilwaith cysylltedd digidol

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

- Materion newid hinsawdd a'r amgylchedd.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth

- Gwasanaethau rheilffordd drwy fasnachfraint Cymru a'r Gororau
- Gwasanaethau bysiau
- Teithio llesol
- Polisïau ffyrdd
- Trafnidiaeth Cymru


Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

- Cynllunio, gan gynnwys Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040
- Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol
- Diogelwch tomenni glo
- Parciau Cenedlaethol

Ni chredaf ei bod yn realistig disgwyl i’r Pwyllgor allu craffu’n effeithiol ar ystod mor eang o bortffolios. Mae gennyf bryder y bydd yr heriau sy’n codi yn sgil y newidiadau i bortffolios y Cabinet yn golygu na fydd modd craffu ar rai meysydd sylweddol o bolisi Llywodraeth Cymru. Mae craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn arbennig yn debygol o fod yn anodd, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau sydd eisoes ar bwyllgorau o ran amser.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe byddai’r Pwyllgor Busnes yn ystyried ad-drefnu cylchoedd gwaith pwyllgorau i symleiddio nifer yr Ysgrifenyddion Cabinet y bydd yn ofynnol i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith graffu arnynt. Gallai hyn gynnwys trosglwyddo materion cynllunio a materion cysylltiedig, fel y nodir uchod, i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Gallai hefyd gynnwys trosglwyddo’r materion sy’n dod o dan bortffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a’r Gymraeg i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddai'r newidiadau hyn yn lleihau nifer yr Ysgrifenyddion Cabinet y bydd angen i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o bedwar i ddau. Fodd bynnag, ni fyddai hynny’n effeithio ar nifer yr Ysgrifenyddion Cabinet y bydd angen i’r ddau bwyllgor arall graffu arnynt.

Mae elfen o orgyffwrdd yn perthyn i gylchoedd gwaith y pwyllgorau polisi yn y Senedd, wrth gwrs, ac rwy’n cydnabod na fyddai newidiadau i gylch gwaith y Pwyllgor yn ei atal rhag edrych ar faterion drwy lens yr amgylchedd neu drwy lens newid hinsawdd. Fodd bynnag, byddai'r newidiadau hyn yn golygu nad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a fyddai’n bennaf gyfrifol am graffu ar y maes polisi hwnnw.

Rwy’n cydnabod y bydd y Pwyllgor Busnes am ymgynghori â phwyllgorau eraill fel rhan o’r broses hon a byddwn yn hapus i drafod unrhyw faterion â’r Pwyllgor.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

## Science and the Senedd Teacher Numbers

- Call on the Welsh Government to work with the Institute of Physics and identify a path forward to **increase the number of specialist physics teachers in secondary schools** in Wales.
- In 2022, Wales had fewer physics-trained teachers (177) than secondary schools (178).[1] [2]
- Data on the teacher shortages is lacking. We do not know which schools have specialist physics teachers and which schools do not. If the Welsh Government collected this data we could see if there is a pattern to the shortages which would help us make recommendations on diagnosing the problem. Initial data suggests that teacher shortages align with economic deprivation – but we want to confirm this.
- We believe that students who have a specialist physics teacher at school are much more likely to go on to study physics at a higher level, opening up huge career opportunities.
- IOP analysis shows that one in 10 jobs in Wales is physics based, with the physics sector directly generating 10% of Wales' GVA at £7.3bn.[3]
- However, Wales' shortage of physics trained teachers to inspire students and help them realise their physics talents could prevent learners from following a physics career in this thriving sector and the sector from growing.
- The Welsh Government targeted the recruitment of 61 students to complete the physics initial teacher education (ITE) programme for 2023-24.[4] Despite this, it saw only three students become trained in physics last year, falling short of its target by almost 95 percentage points.[5]

---

[1] Education Workforce Council. 2023. Annual Education Workforce Statistics for Wales 2023. Cardiff: Education Workforce Council.
[2] Welsh Government. 2023. Schools' census results: January 2023. Cardiff: Welsh Government.
[3] Institute of Physics. 2019. The contribution of physics to the Welsh economy. London: Institute of Physics.
[4] Education Workforce Council. 2023. Secondary Intake allocations 2022-23. Cardiff: Education Workforce Council.
[5] Education Workforce Council. 2023. Initial teacher education (ITE) results. Cardiff: Education Workforce Council.

- 58% of secondary schools considered themselves understaffed for physics teachers in 2022.[6] This was much higher than any other nation in the UK.
- Wales also achieved its lowest ever PISA score in science in 2022.[7]

### The bursary

- The Wales ITE bursary is worth just over half of the bursary in England.
- Wales offers £15,000 for secondary physics, extended to £20,000 for Cymraeg.
- England offers £27,000, rising to £29,000 for 'high calibre' applicants, and a £3,000 incentive for those training in the most disadvantaged areas (a separate veterans offer is worth £40,000).
- For further education physics, the Welsh incentive is £3,000 with an extra £1,000 for Cymraeg. In England, further education is £26,000.

### Retention

- There are many avenues to better the support early careers teachers receive. Ensuring that physics-trained teachers stay within the system in the first five years of their teaching career greatly increases the chance of them remaining as teachers for the long-term.

[6] Royal Society of Chemistry. 2022. The science teaching survey 2022. Online: Royal Society of Chemistry.
[7] Senedd Research. 2023. How did Wales perform in PISA 2022? Cardiff. Senedd Research.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice**

**Lynne Neagle MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Jayne Bryant MS**
**Minister for Mental Health and Early Years**
**Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Buffy Williams MS
Chair
Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament,
Cardiff Bay,
Cardiff
CF99 1SN

23 Mai 2024

**A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Annwyl Buffy,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ebrill yn cynnig cyfle i ni roi unrhyw wybodaeth neu ddiweddariadau pellach i'r Pwyllgor a allai helpu i lywio eich adroddiad a'ch casgliadau.

Yn ogystal â'r papur tystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y cyn-Weinidog Addysg a'r Gymraeg, y cyn-Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar bellach i'r Pwyllgor ar ddiwygio'r Cwricwlwm ac ADY. Gobeithiwn y bydd yr holl dystiolaeth a ddarparwyd o gymorth i'r Pwyllgor wrth i chi ystyried eich adroddiad.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich adroddiad ac ymateb i'ch argymhellion.

Yn gywir

| | | |
|---|---|---|
| **Lesley Griffiths AS/MS**<br>**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**<br>**Cabinet Secretary for Culture and Social Justice** | **Lynne Neagle MS**<br>**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**<br>**Cabinet Secretary for Education** | **Jayne Bryant MS**<br>**Minister for Mental Health and Early Years**<br>**Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar** |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Annwyl Jeremy Miles,

Diolch am gyfarfod gyda ni yn ddiweddar i drafod y Bil Addysg Gymraeg, sut y byddwch chi a Lynne Neagle yn rhannu'ch cyfrifoldebau yn y Cabinet ar ei newydd wedd, ynghyd â materion eraill.

Fel soniwyd yn y cyfarfod, rydym yn falch ac yn gwerthfawrogi eich bod yn parhau yn gyfrifol am drywydd y Bil Addysg Gymraeg, sy'n sicrhau cysondeb wrth symud ymlaen yn ogystal â chadw eich profiad, arbenigedd a brwdfrydedd. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi eich ymrwymiad yn y cyfarfod i gyflwyno'r Bil Addysg Gymraeg cyn toriad yr haf y Senedd yng Ngorffennaf eleni.

Er hynny, rydym yn pryderu am eich sylw na fydd y targed bod 50% o blant Cymru mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050 yn statudol, ac y bydd yn darged ar gyfer y "taflwybr mwyaf uchelgeisiol" yn unig.

Fe fyddwch yn deall ein pryderon y bydd y targed hwn - fel targedau blaenorol y Llywodraeth - yn cael ei fethu os na fydd ymrwymiad cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru dros y 25 mlynedd nesaf i gyllido a chynllunio'r cynnydd sy'n rhaid ei weld erbyn 2050.

Os yw'r Llywodraeth wir am sicrhau bod *"pob disgybl yn dod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol"* fel sydd ar flaen Papur Gwyn y Bil Addysg Gymraeg, rhaid creu amodau a chynllunio ar gyfer cynnydd sylweddol yn y nifer o blant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, trwy dargedau statudol yn genedlaethol ac ar awdurdodau lleol. Byddwn ni'n parhau i bwyso am hynny yn ystod proses craffu'r Bil.

Yn y cyfarfod, roedden ni'n gytûn mai'r ddelfryd ar gyfer dysgu ac asesu'r Gymraeg yn ein hysgolion yw un continwwm, sy'n gosod cyrhaeddiad pobl ifanc Cymru ar gymhwyster unedig. Mae hyn yn hefyd adlewyrchu barn gyhoeddus. Yn ôl y data yn yr adroddiad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, mae 93% o sefydliadau 59% o unigolion o blaid creu un continwwm. Yn groes i'r awgrym yn y cyfarfod, ni chyfeiriodd un ymateb a oedd yn gwrthwynebu un continwwm at y gweithlu fel rheswm dros beidio cyflwyno un cwricwlwm dysgu ac asesu TGAU Cymraeg, ac nid oedd yr un ymateb yn gwrthwynebu'r egwyddor o greu un continwwm. Mae cefnogaeth cyn gryfed dros sefydlu un continwwm yn awgrymu bod angen symud yn ddiymdroi i sicrhau un continwwm dysgu ac asesu, a chyfle cyfartal i bob disgybl yng Nghymru i ddysgu'r Gymraeg. Croesawn eich awgrym yn ystod y cyfarfod y dylid gweithredu ar yr argymhelliad yma.

Fodd bynnag, yn groes i'r hyn a ddywedwyd yn y cyfarfod, rydym o'r farn bod modd cyrraedd y ddelfryd honno wrth ddiwygio cwricwlwm yn 2027, yn hytrach nag aros nes 2032. O sefydlu gweithgor o athrawon ac arbenigwyr yn y chwech i naw mis nesa, gallai gyflwyno cynlluniau posibl ar gyfer creu un continwwm yn gynnar yn 2025. Byddai modd cynnal ymgynghoriad a threialu'r argymhellion yn 2025-26 fel bod modd eu gweithredu yn llawn yn 2027. Fe gasglodd adroddiad Sioned Davies 'Un Iaith i Bawb' yn 2013 fod hyn yn bosib yn academaidd, wedi ymgynghoriad llawn gydag athrawon, rhieni, pobl ifanc ac arbenigwyr:

> *"Dylid ystyried datblygu dyfarniad deuol lle y byddai disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael gradd ychwanegol i ddangos y radd gymharol y byddent wedi'i hennill mewn arholiad Cymraeg (iaith gyntaf). Yn ogystal â helpu cyflogwyr i ddeall y gwahaniaeth mewn lefelau sgiliau Cymraeg, gallai ategu nod Llywodraeth Cymru o sicrhau bod dysgwyr sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd yn parhau i ddatblygu ar ôl trosglwyddo i ysgol uwchradd."*

*Un Iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (Llywodraeth Cymru: 2013), t. 30.

Mae hon felly yn amserlen ymarferol y gellid ei gweithredu os yw'r ewyllys yno. Mae'n hollol annerbyniol cael parhad o drefn lle nad oes gorgyffwrdd rhwng y ddau asesiad Cymraeg TGAU fel sydd ar hyn o bryd.

Y nod ar gyfer y tymor byr yw datganiad cyhoeddus prydlon ar amserlen a chynllun gwaith ar gyfer creu un continwwm ac un llwybr asesu er mwyn codi disgwyliadau ac fel gall pob un disgybl gael y cyfle i gyrraedd y safonau uchaf. Fe sonioch chi yn y cyfarfod y byddech yn cysylltu â phwyso ar Gymwysterau Cymru am ddatganiad am amserlen gyhoeddus ar gyfer dechrau'r gwaith cynllunio ar gyfer hynny. Rydym yn gobeithio, ac yn wir disgwyl, am gyhoeddiad buan parthed hynny. Yn ôl ein gwaith ymchwil, mae 142,351 o blant wedi derbyn gradd TGAU Cymraeg Ail Iaith ers cyhoeddi adroddiad Sioned Davies yn 2013, ac o ganlyniad wedi'u hamddifadu o'r cyfle i ddysgu Cymraeg yn hyderus. Byddai oedi pellach yn golygu bod mwy a mwy o blant yn colli'u sgiliau Cymraeg trwy'r system addysg.

Edrychwn ymlaen at glywed eich ymateb, a gobeithio y gallwn ni gyfarfod eto yn y dyfodol.

Byddwn yn anfon copi o'r llythyr yma i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, er gwybodaeth.

Yn gywir

Joseff Gnagbo, Cadeirydd Cenedlaethol Cymdeithas yr Iaith
Toni Schiavone, Cadeirydd Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith
Mabli Siriol, Is-gadeirydd Grŵp Addysg Cymdeithas yr Iaith

**Y Gwir Anrh/ Rt Hon Vaughan Gething AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr David Rees AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

6 Mehefin 2024

Annwyl Cadeirydd,

**Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 9 Mai yn dilyn y sesiwn graffu ddiweddar ar blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Roeddwn yn falch iawn o gael trafodaeth gyda'r Pwyllgor am y maes pwysig iawn hwn ac yn enwedig gan fod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu bod yn bresennol i weld y drafodaeth drostynt eu hunain.

Mae atodiad A ynghlwm yn darparu ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor a amlinellwyd yn eich llythyr. Bydd yr ymatebion yn dangos bod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud drwy'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant gyfredol. Rwy'n cydnabod mai taith yw hon a dyma fan cychwyn y daith honno. Byddwn yn mynd ati'n barhaus i adolygu a diweddaru ein gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan bobl ifanc gan sicrhau ar yr un pryd bod ein gwaith yn gydnaws â'n Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Byddwch yn ymwybodol bod yr elfennau amrywiol o waith sydd ar y gweill ar wahanol gamau o ran eu haeddfedrwydd, ac rwy'n hyderus y byddant yn sicrhau gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Edrychaf ymlaen at ein trafodaeth ar 12 Gorffennaf.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**VAUGHAN GETHING**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Gwybodaeth ychwanegol am blant â phrofiad fod mewn gofal

**Y cynnydd yn nifer y plant mewn gofal**
Pa gamau ychwanegol mae eich llywodraeth yn bwriadu eu cymryd er mwyn gostwng – mewn modd diogel – nifer y plant sy'n mynd i ofal, o ystyried nad yw'r buddsoddiad a'r dulliau presennol wedi gwrthdroi'r cynnydd, hyd yn hyn.

Rydw i, fel fy rhagflaenydd, wedi ymrwymo'n gadarn i gyflawni ein huchelgais i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd ledled Cymru gan wneud popeth o fewn ein gallu i helpu teuluoedd i barhau i ofalu am eu plant eu hunain yn llwyddiannus. Rwyf i a phob un o Weinidogion Cymru yn rhannu'r brwdfrydedd i wneud y newid sylweddol sydd yn amlwg ei angen.

Rwy'n cydnabod bod nifer y plant mewn gofal wedi aros yr un fath. Byddwch yn gwerthfawrogi bod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anodd a heriol i Wasanaethau Plant ar ôl Covid. Bu'n rhaid i ni flaenoriaethau a chraffu ar y ffordd orau o wario ein harian gan ystyried y sefyllfa ariannol sy'n ein hwynebu a'r argyfwng costau byw yn y DU. Mae hyn wedi arwain hefyd at heriau ariannol a heriau o ran y gweithlu i awdurdodau lleol.

Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy'r Rhaglen Trawsnewid gyfredol ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'r Rhaglen wedi gwneud cynnydd sylweddol, ond rydym ar daith a gwyddom na fydd y newid yn digwydd dros nos. Dim ond rhai o'r camau sy'n cael eu cymryd a restrir isod; camau a fydd, yn fy marn i, yn gostwng – mewn modd diogel – nifer y plant sy'n mynd i ofal.

Rydym yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod profiad bywyd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrth wraidd popeth rydym wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Voices from Care ar yr Uwchgynadleddau ar gyfer Pobl Sy'n Gadael Gofal. Mae'r Uwchgynadleddau hyn wedi rhoi cyfle i Weinidogion glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal am eu profiadau a'u barn ar ba newidiadau y mae angen eu gwneud.

Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn natganiad yr Uwchgynhadledd Profiad o Ofal, y cyntaf o'i fath yn y DU. Mae'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a minnau wedi ymrwymo i gyflawni'r weledigaeth a amlinellwyd gan y llysgenhadon ifanc.

Mae ein Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid wedi'i sefydlu ers dros flwyddyn ac mae'n cael ei gadeirio gan Jonathan Griffiths, sef ein harweinydd Trawsnewid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r Grŵp yn bwrw ymlaen â dwy ffrwd waith - un yn canolbwyntio ar ddata a metrigau a'r ail yn edrych ar gymorth ac atal cynnar sy'n cyd-fynd â themâu o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, "Os nad nawr, pryd?".

Gan gyd-fynd â'r thema cymorth ac atal cynnar, mae'r gwasanaeth eirioli i rieni yn cefnogi rhieni i ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â gweithwyr cymdeithasol, sefydliadau'r trydydd sector, llysoedd teulu a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatrys materion sy'n cael effaith negyddol ar eu teulu. Rydym yn buddsoddi £1.6 miliwn o gyllid yn ystod tymor cyfredol y Senedd drwy'r Gronfa Newid ar gyfer Plant sydd â Phrofiad o Ofal i gynyddu prosiectau presennol Eirioli i Rieni yn rhanbarthol ac er mwyn sicrhau bod gwasanaethau newydd yn

cael eu sefydlu ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru fel rhan o waith lledaenu yn genedlaethol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo'n gadarn i ddatblygu a chyflwyno Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Y Fframwaith fydd y gyfres gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, a bydd wedi'i osod ochr yn ochr â gweithdrefnau Cymru gyfan eraill fel gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan. Trefnwyd proses ymgysylltu ar gyfer y 6 safon gyntaf yn gynharach eleni ac ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd, rydym bellach yn datblygu drafft llawn o'r Fframwaith ar gyfer ymgysylltu parhaus ac yn gobeithio cyhoeddi Fframwaith llawn, i'w roi ar waith, erbyn diwedd y flwyddyn.

Rydym yn bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i ddileu elw o'r maes gofal ac wedi cyflwyno deddfwriaeth i gyflawni hyn. Mae dileu yn llawer mwy na modelau perchnogaeth ac elw, mae'n ymwneud ag adeiladu gwytnwch yn y sector, diwallu anghenion gofal a chymorth ein pobl ifanc yn y ffordd orau, eu cadw yn eu cymunedau a gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cefnogi i fod gyda'u teuluoedd.

Lansiwyd y Siarter Rhianta Corfforaethol ym mis Medi y llynedd. Hyd yma, mae 40 o sefydliadau wedi cofrestru gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru. Rydym yn parhau i annog pob corff cyhoeddus yn ogystal â chyrff preifat a'r trydydd sector ledled Cymru i gofrestru a dod yn Rhieni Corfforaethol.

Rhwng 2021 a 2023, fe wnaeth 15 prosiect ar hyd a lled pob rhanbarth yng Nghymru ddefnyddio cyfanswm o £3.5 miliwn o gyllid Adeiladau Rhanbarthol. Arweiniodd hyn at greu 26 o welyau newydd o ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth a darparwyd cymorth i 62 o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Ers hynny, rydym wedi dyrannu dros £23 miliwn yn y maes hwn ac yn parhau i dderbyn cynigion drwy'r Gronfa Tai â Gofal. Bydd hyn yn darparu cyfanswm o 96 gwely arall, o'r rhain mae 5 cartref eisoes yn gweithredu gyda 15 gwely. Gan ategu'r dull hwn, mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys buddsoddiad sylweddol o tua £18 miliwn y flwyddyn i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a darparu cefnogaeth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi'n helaeth yn ein cynllun maethu cenedlaethol, Maethu Cymru, i wella gallu gwasanaethau maethu awdurdodau lleol i recriwtio a chadw gofalwyr maeth.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn derbyn yr un gefnogaeth â gofalwyr maeth prif ffrwd a thrwy Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod pecyn a gytunwyd o hyfforddiant, cefnogaeth a chymorth ariannol ar gael yn barhaus i'r holl ofalwyr maeth sy'n berthnasau drwy bob un o'r 22 o asiantaethau maethu awdurdod lleol yng Nghymru.

Taith yw hon, a dyma fan cychwyn y daith honno, a byddwn yn mynd ati'n barhaus i adolygu a diweddaru ein gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan bobl ifanc gan sicrhau ar yr un pryd bod ein gwaith yn gydnaws â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae elfennau amrywiol o waith ar y gweill ac ar wahanol gamau o ran aeddfedrwydd, ac rwy'n hyderus y byddant yn sicrhau gwell canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

**Rôl Llywodraeth Cymru fel rhiant, a nain a thaid, corfforaethol**
Yr amserlen ar gyfer cryfhau Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya gan ei fod yn cyfeirio at rianta corfforaethol. At hynny, byddem yn croesawu gwybodaeth am unrhyw gamau ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru

eu cymryd i gefnogi Gofalwyr sy'n Berthnasau er mwyn cydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae.

Byddwn yn datblygu drafft o'r bennod bwrpasol ar Rianta Corfforaethol o fewn Cod Ymarfer Rhan 6, eleni. Bydd y bennod yn nodi'n gliriach ddyletswyddau i rieni corfforaethol ac yn cefnogi dull strategol cryfach ar gyfer rhianta corfforaethol. Byddwn yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid wrth ddatblygu'r bennod a byddwn yn rhannu'r drafft gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael eu mewnbwn. Bydd y bennod yn rhan o ddiweddariad ehangach o God Ymarfer Rhan 6 a ddaw i rym cyn diwedd Tymor y Senedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r rôl y mae gofal gan berthnasau yn ei gynnig. Bydd rhoi'r cyfle i blentyn fyw gydag aelod o'r teulu neu ffrind agos, pan na all ei rieni ofalu amdano, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywyd plentyn.

Fel rhan o'n gwaith i ddiwygio gwasanaethau plant yng Nghymru yn sylweddol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Arbenigol ar Warcheidiaeth Arbennig a fydd yn datblygu dull gwell a chyson sy’n seiliedig ar anghenion o gefnogi teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig ledled Cymru. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o'r sector statudol a'r trydydd sector ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaethau ac fel rhan o'i waith bydd yn edrych ar ffyrdd o gasglu barn plant a phobl ifanc. Y bwriad yw ehangu cwmpas y grŵp hwn maes o law i edrych ar y defnydd o ofalwyr maeth sy'n berthnasau yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Yn ogystal, mae Maethu Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn derbyn yr un gefnogaeth â gofalwyr maeth prif ffrwd ac mae wedi lansio ei ymrwymiad cenedlaethol sy'n becyn a gytunwyd o hyfforddiant, cefnogaeth a gwobrau ar gael yn barhaus i bob gofalwr maeth (prif ffrwd a'r rhai sy'n berthnasau) yng Nghymru drwy bob un o'r 22 o asiantaethau maethu awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae Maethu Cymru wedi ymrwymo hefyd i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn derbyn yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth prif ffrwd. Un o nodau ein gwaith presennol ar ffioedd a lwfansau yw sicrhau cysondeb, ochr yn ochr ag elfennau eraill y cymorth ariannol i bob gofalwr maeth cymeradwy. Ar hyn o bryd mae pob gofalwr maeth cymeradwy ledled Cymru (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr maeth sy'n berthnasau) yn cael eu talu isafswm lwfans cenedlaethol i ddiwallu anghenion plant yn eu gofal. Yn ogystal, mae pob awdurdod lleol yn talu lwfans / ffi uwch i ofalwyr maeth prif ffrwd.

Trwy Maethu Cymru a thrwy gysoni gwaith ar ffioedd a lwfansau, rydym yn ceisio sicrhau bod lwfans / ffi uwch ar gael i bob gofalwr maeth cymeradwy (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a gofalwyr maeth sy'n berthnasau) ar yr amod eu bod yn cael eu hasesu ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra fel y nodir yn y polisi cymhwystra ar gyfer lwfans uwch.

Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol, o dan Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth sy'n berthnasau gyrraedd yr un safon o addasrwydd i faethu â gofalwyr prif ffrwd. Yr unig wahaniaeth i ofalwyr maeth sy'n berthnasau yw eu bod yn cael eu cymeradwyo i fod yn ofalwr maeth i blentyn penodol o dan y rheoliadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod llawer o ymarferwyr, paneli a phenderfynwyr wedi cael trafferth gydag elfen addas i’r diben y fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer gofal maeth gan rai sy'n berthnasau.

I gynorthwyo'r sector maethu, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu i ystyried newidiadau deddfwriaethol y gellid eu cyflwyno fel y gellir canfod ffordd ymlaen amgen ac sy'n fwy 'addas i'r diben' ar gyfer asesu gofalwyr sy'n berthnasau.

**Digartrefedd**
Diweddariad ar sut y bydd yr iteriad nesaf o Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn mynd i'r afael ag anghenion plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys rhieni biolegol sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Fe fyddwch yn ymwybodol bod data Llywodraeth Cymru yn dangos bod 315 o'r rheini a oedd yn gadael gofal yn ddigartref yng Nghymru yn 2022-23, sef cynnydd sylweddol ers 2020-21. Fel y gwyddoch, hefyd, mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at bobl ifanc hyd at 25 oed yn cael eu cefnogi'n weithredol gan eu hawdurdod lleol fel rhai sy'n gadael gofal ar yr adeg yr adroddwyd am eu digartrefedd. Rydym yn nodi bod Adolygiad gan Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru wedi gwneud argymhelliad penodol, a bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, hefyd wedi dweud y dylid creu "chweched categori o'r enw 'blaenoriaeth resymol' ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ni waeth beth fo'u statws digartrefedd, er mwyn eu hatal rhag mynd i mewn i'r system ddigartrefedd i gael mynediad at dai cymdeithasol”. A allwch chi gadarnhau y bydd hyn yn cael ei roi ar waith?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd ddiwedd y llynedd ac yn ddiweddar fe wnaethom gyhoeddi ein dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn wedi'u gwreiddio o fewn cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ac mae ganddynt botensial enfawr i drawsnewid profiad pobl ifanc ac yn enwedig pobl sy'n gadael gofal, sy'n profi digartrefedd neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Ni allwn nodi cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar hyn o bryd, ond rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu blaenoriaethu yn y gwaith hwnnw a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflawni'r nod hwn.

**Cyflawni canlyniadau strategaethau i gefnogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal**
Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i gryfhau'r mecanweithiau ar gyfer *cyflwyno* strategaethau presennol sy'n effeithio ar blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal? Er enghraifft, y targed cenedlaethol yn strategaeth 2016, sef codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal oedd codi cyrhaeddiad plant ifanc 15 oed sy'n derbyn gofal yng Nghyfnod Allweddol 4 o'r trothwy cynwysedig Lefel 2 o 17% yn 2014 i 25% yn 2016. Yn ôl y ffigurau cyhoeddedig diweddaraf o 2019, roedd y ganran wedi aros ar 17% bryd hynny.

Mae ein huchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghymru wedi'u nodi yn *Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb*. Maent yn cynnwys ymrwymiad i degwch o ran deilliannau mewn addysg ar gyfer *pob* plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella deilliannau addysgol i blant â phrofiad o fod mewn gofal, gan gydnabod pwysigrwydd edrych yn gyfannol ar eu hanghenion yn yr ysgol. Rydym eisiau canolbwyntio hefyd ar gynnydd ar hyd llwybr dysgu'r plentyn ei hun ac ar allu’r plentyn i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag oedolion a'u cyfoedion. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ystyried y pwyntiau a wnaed gan y bobl ifanc yn y drydedd Uwchgynhadledd Profiad o Ofal ym mis Mawrth. Aethant ati'n huawdl iawn i gyfleu eu syniadau ar sut y gellid gwella'r system addysg ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae plant â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu mwy o risg o broblemau iechyd meddwl, felly rhaid mynd i'r afael â hyn mewn modd lle gallant gael y canlyniadau gorau posibl. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid sylweddol drwy elfen derbyn gofal y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) i gefnogi'r amcan hwn. Mae hyn yn cael ei ategu gan y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant, sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru.

Mae ein hymrwymiad i addysg pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cyd-fynd ag amrywiaeth o gefnogaeth mewn ysgolion ac ar gyfer addysg ôl-16. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cynnwys £5.7 miliwn o gyllid yn 2023-24 i gefnogi yn benodol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn yr ysgol. Nod y cyllid yw gwella deilliannau addysgol drwy leihau'r rhwystrau y maent yn aml yn eu hwynebu i gyflawni eu potensial llawn.

Rydym wedi darparu £1.2 miliwn i awdurdodau lleol dros y tair blynedd diwethaf i roi cynllun peilot o'r Model Ysgolion Rhithwir (VSM) ar waith i wella deilliannau addysgol i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rydym yn gwerthuso'r cynllun peilot ac yn disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi erbyn mis Mawrth 2025. Bydd y canfyddiadau'n dylanwadu ar y broses o ddatblygu polisïau yn y dyfodol ac ar gyfeiriad strategol cymorth ar gyfer addysg plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae cynllun peilot y Model Ysgolion Rhithwir yn ategu darpariaethau eraill mewn awdurdodau lleol sy'n cefnogi addysg plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys rolau Pennaeth Ysgol Rithwir a Chydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal; Cynlluniau Addysg Personol; cefnogaeth academaidd ychwanegol a systemau bugeiliol cryf sydd wedi'u teilwra i anghenion plant â phrofiad o fod mewn gofal. Mae gan bob coleg yng Nghymru dîm gwasanaethau myfyrwyr i ddarparu cymorth llesiant, cymorth ymarferol a chymorth ariannol i helpu dysgwyr i gyflawni eu potensial ôl-16. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth o gymorth ariannol hefyd i alluogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i barhau â'u hastudiaethau mewn Sefydliadau Addysg Bellach.

**Gweithlu gofal cymdeithasol i blant**
Pa gamau ychwanegol y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod yna weithlu gofal cymdeithasol plant sy'n addas at y diben – a'ch disgwyliadau o ran rôl awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru - yn hyn o beth. Fe fyddwch yn ymwybodol bod yna, yn 2022, 639 o swyddi gweigion, mewn timau gwaith cymdeithasol plant ledled Cymru, ac ym mis Medi 2023, roedd 17.5% o weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant yn cael eu cyflogi gan asiantaeth.

Rydym yn ymwybodol iawn bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn wynebu heriau o ran recriwtio a chadw, ac mae Llywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), sefydliadau gofal cymdeithasol a chyflogwyr yn cydweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae angen dull cyfannol er mwyn sicrhau bod digon o staff â'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion oedolion, plant a phobl ifanc. Mae'r llywodraeth a GCC yn cydweithio ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghenion y gweithlu a sicrhau cyfleoedd hyfforddi digonol.

Mae'r Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol drwy GCC yn cefnogi awdurdodau lleol gyda'u mentrau 'datblygu eich rhai eich hunain'. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i weithwyr ddilyn cwrs gwaith cymdeithasol wrth weithio. Mae nifer y myfyrwyr "datblygu eich rhai eich hunain" yn parhau i godi (6% yn uwch yn 2022-23 a disgwylir ffigurau wedi'u diweddaru ar gyfer 2023-24 ym mis Mehefin). Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £10 miliwn yn y fwrsariaeth i weithwyr cymdeithasol i wneud y radd mewn gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol i'r rhai sydd ar lwybr astudio Sefydliad Addysg Uwch. Mae'r data

cychwynnol ar y fwrsariaeth i weithwyr cymdeithasol yn dangos bod 50% yn fwy o ôl-raddedigion yn dilyn y cwrs yn 2023-24, a bod twf o 13% yn gyffredinol yn niferoedd israddedigion ac ôl-raddedigion. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio y gall hyfforddiant gwaith cymdeithasol gymryd rhwng 3 a 6 blynedd i'w gwblhau. Rydym yn cynnal ein cefnogaeth i gyflogwyr sydd â diddordeb mewn recriwtio gweithwyr cymdeithasol rhyngwladol mewn ffordd foesegol a chynaliadwy. Fe wnaeth tipyn dros 100 o weithwyr cymdeithasol rhyngwladol gais i gofrestru â chofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru y llynedd, ac mae'r cynnydd hwn yn parhau.

Mae plant a phobl ifanc yn aml yn dweud wrthym eu bod yn profi newidiadau aml mewn gweithwyr cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn arwain gwaith sy'n canolbwyntio ar delerau ac amodau i weithwyr cymdeithasol, gan gynnwys edrych ar y dulliau cenedlaethol, er enghraifft atebion digidol a llwyth achosion. Rydym yn gwybod bod llwyth achosion yn un o'r prif faterion sy'n rhoi pwysau ar weithwyr cymdeithasol, ond maen nhw'n symptom o bwysau ehangach y gweithlu ac ni ellir edrych arnynt fel rhywbeth ar wahân. Bydd y darn hwn o waith yn ceisio cefnogi a denu unigolion i'r proffesiwn, ond hefyd lleihau lefel y staff cymwys sy'n symud rhwng awdurdodau lleol oherwydd amrywiadau o ran telerau ac amodau.

Mae'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) yn arwain ar "Addewid Cymru Gyfan – Sefydlogi Asiantaethau Recriwtio Plant" lle daethant ag awdurdodau lleol ynghyd i ddatblygu Memorandwm Cydweithio i Gymru. Mae'r addewid yn edrych ar bennu cyfraddau cyflog cyson ar gyfer asiantaethau ledled Cymru, a chyfres o egwyddorion y bydd awdurdodau lleol yn eu haddasu wrth gyflogi gweithlu asiantaeth. Mae gwybodaeth ADSS yn dangos gostyngiad yn y defnydd o weithwyr asiantaeth yng ngwasanaethau'r Awdurdod Lleol rhwng 1 Gorffennaf 2023 a 1 Ionawr 2024, (o 320 ym mis Hydref 2023 i 280 ym mis Ionawr 2024). Roedd yn gadarnhaol hefyd bod cynnydd yn nifer y staff asiantaeth a oedd yn trosglwyddo i swyddi parhaol (27 o weithwyr asiantaeth yn yr un amserlen). Mae'r gwaith hwn yn parhau i gynyddu.

Mae GCC wedi ymgorffori "Gofalwn Cymru", yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i godi proffil gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, ym mhob agwedd ar ei waith i helpu i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector. Mae wedi datblygu cynlluniau wedi'u targedu ar gyfer proffesiynau sy'n profi prinder staff a'r rhai sy'n ei chael yn anodd recriwtio, gan gynnwys gwaith cymdeithasol.

Mae llesiant y sector yn flaenoriaeth a dylai fod yn sail i'n holl bolisïau. Yn ddiweddar, fe wnaethom ymestyn y cynnig cymorth iechyd meddwl am ddim (Canopi) i'r gweithlu gofal cymdeithasol a oedd ar gyfer iechyd yn unig yn wreiddiol. Mae Canopi wedi nodi cynnydd yn nifer y staff gofal cymdeithasol sy’n defnyddio’r gwasanaeth ac rydym yn archwilio sut y gallwn gefnogi Canopi ymhellach i ddarparu'r cynnig llawn i'r gweithlu gofal cymdeithasol. Byddwn yn parhau hefyd i ariannu'r gwaith o ddarparu Gwasanaeth Cefnogaeth gan Gymheiriaid BASW, sy'n cynnig cefnogaeth am ddim gan gymheiriaid i weithwyr cymdeithasol, gan ganiatáu iddynt reoli materion sy'n ymwneud â gwaith, a datblygu eu gyrfa drwy gael cyngor a chefnogaeth gan gydweithwyr cymdeithasol mwy profiadol.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon